gwybod pwy a laddodd y soldiwr ond ni ddywedai wrth neb, byth.

Dyma'r dyfyniad o ddyddlyfr Edmwnd Evans:

*Gwener 12 o Awst 1831*

Ymweld â Mr Williams yn Trelai. Euthom gyda Mr Williams ac i'r carchar i weld carcharor oedd i gael ei golli am ryw derfysg a fu ym Merthyr a chawsom ef mewn llefain cryf a dagra – o oriau sobor. Cyngorasom ef ynghyd â gweddïo gydag ef ac ynteu hefyd yn eiriol weddïo. Ond hyn oedd yn caethiwo ei feddwl, ydoedd ei fod yn barnu ei fod yn cael cam. Aeth Wm. Rowland a Thomas Jones yn y prydnhawn i weddïo gydag ef. Aethom at y nos i Sant Ffagan gyda Rowlands a phregethais. Lle yr hwn y bu y frwydr olaf yng Nghymru yn amser Cromwell. Roedd yno drigain o ferched gweddwon ar yr un amser ac yn methu cael neb i weithio y cynhaeaf. Cafwyd hamdden i fwyd a chysgu yn y Caera yn nhy Mrs Miles.

*Sadwrn 13 Awst 1831:*

Diwrnod tywyll a chymylog. Am 5 o'r bora aethom i'r dref at y carcharor a chawsom ef a'r offeiriad yn gweddïo gydag ef. Gweddiais innau ar ei ôl ac yntau yn daer iawn gyda ni. Yr oeddwn y dydd o'r blaen wedi ei annog i ofyn er mwyn Iesu, canys nid oedd ganddo un awgrym am Gyfryngwr. Ar fy ôl aeth Mr D. Williams i weddi ar ei ran ac ni chlywais erioed y fath weddi, yr oedd yn Agor y Nef debygwn ni. Ar ôl hynny daeth y Jailer a chwpaned o de iddo a deilen dene o fara a menyn ond ni chymerth ddim bwyd ond yfodd y te. Yna daeth ei wraig yno i ffarwelio ag ef. O! yr oedd yn amhosibl i un galon ddal heb holldi, gobcithio na wela i byth y fath beth, ond hynny, ar ôl hyn. Aethom i'r man lle y byddant yn arfer darllen y gwasanaeth a derbyniasom y cymun gyda'r carcharor gan Mr Jones yr offeiriad. Yr oedd ohonom bedwar – Mr Williams, Mr T. Jones a Rowlands a minnau. Ar ôl hyn aeth Rowlands a Jones i weddi ac yn ddiweddaraf gweddïodd y carcharor yn daer iawn. Yna darllenodd Mr Jones yr offeiriad adnodau o'r Salmau a dyna wyth o'r gloch. Roedd rhaid cychwyn ac allan â ni i'r cowrt. Gyda hynny dyma'r 'hangman' yn ei rwymo a'r 'jailer' yn rhoi 'hangcufs' am ei ddwylaw. 'O dyma gam' meddai yntau sef Richard Lewis ac ymlaen â ni ar ôl y carcharor i ben y lle, i olwg miloedd o edrychwyr. Golwg arswydol. Yna yr offeiriad a ddarllenodd wasanaeth y claddu. Gyda hynny rhoes yr hangman y gorden am ei wddf. Rhoes yntau floedd dreiddiol yn adsain tros yr holl dref – 'O dyma gamwedd' yna dywedodd 'O Iesu maddau iddo ac i minnau'. Yna i lawr a'r trap dôr a gollyngwyd ef i wyddfyd y BARNWR MAWR. Troesom ein cefnau ac i'r man y buom yn cymeryd yr ordinhâd ac ar ein gliniau ein pump, Mr Jones yr offeiriad, Mr Williams, Mr T. Jones a Mr Rowlands a minnau. Yna i lawr i edrych am y carcharor arall a oedd wedi ei gondemnio fel yntau unwaith ond a alltudiwyd, sef Lewis Lewis. Mawr y llefain yr oedd ar ôl y llall ac yn dweud 'Nid y fe wnaeth yn wir,' meddai lawer gwaith, sef sticio y soldiwr yn Merthyr. 'Ond mi wn i pwy ddaru,' meddai 'ond ni ddywedaf byth ar ôl hyn.' Aethom i frecwast at Mr Groest ein pedwar. DIWRNOD SOBOR. Ar ôl hyn aethom i drio cysgu. I'r Caera nos Sadwrn at Mrs Miles.'

*Dydd Sul 14*

DIOLCH am ei weld i gael ymddiosg o'r holl feddyliau pruddaidd. Pregethais am 10 yn Nhrelai. Am 2 yng Nghaerdydd, am 6 yn Llandaf. Cefais Sul â Duw yn agos ataf. CLOD IDDO.

Does dim amheuaeth fod y manylion didwyll a diduedd a gofnododd Edmwnd Evans ar y pryd yn ei ddyddlyfr, yn profi yn llwyr fod Dic yn ddieuog o'r drosedd.

Roedd Edmwnd Evans yn ddyn cyfiawn, gonest a duwiol iawn a dyma ddywed y diweddar Barchedig Tecwyn Jones amdano yn hanes Soar yn yr *Eurgrawn*:

'Dyma fedd gŵr, yn llaw Duw, yn anad neb, a fu'n foddion i sefydlu'r Achos yn Soar, y gŵr y cysylltid ei enw bob amser â'r Eglwys gan y rhai gynt, 'Soar Edmwnd Evans', ydoedd iddynt hwy. Ni bu neb yn fwy ei lafur nac yn llwyrach ei ymroddiad er mwyn Soar nag ef.' Yn wir, hwyrach pe clustfeiniwyd uwch ei lwch yn y fan gysegredig hon, yn nhawelwch swrth ambell hwyr brynhawn, y clywid eto lef ei utgorn mawr yn parhau i atseinio yng nghilfachau'r creigiau gerllaw... Diau y clywid yr awel yn yr yw ac yn gymleth â'i sibrydion hi, o byddai'r glust yn ddigon tenau clywid hefyd

> ...ysbryd hen y fro
> Yn suo ar ei glwyfus bererindod
> Gan alw'n ysgafn ar ieuengach tô
> I diwnio ar ei feddrod.

Claddwyd Edmwnd Evans ym mynwent Soar, Talsarnau, ger mur y Capel a chistfaen syml ar y bedd a'r geiriau yma arni:

> 'Coffa am Edmwnd Evans, Pregethwr Cynorthwyol, pregethodd dros 13,000 o weithiau yn ystod 46 o flynyddoedd a bu farw yn yr Arglwydd, Hydref 9fed 1864 yn 73 mlwydd oed. Rhoddwyd y gistfaen hon gan ychydig gyfeillion o barch i'w goffadwriaeth".

Ac ar y gistfaen hefyd y mae englyn gan Ellis Owen, 'Cefn y Meysydd', Porthmadog, Eifionydd.

> Cennad hedd: ei fedd wyf fi yn Soar
> Y mae'r Sant yn tewi
> I gannoedd y bu'n gweini
> Gwaed y Groes i gyd ei gri.

R. EMRYS JONES, SULLY

## AR WERTH

Nash-Williams, *Early Christian Monuments of Wales*, University of Wales Press, 1950: Pris £95.
*History of Talley and Talley Abbey* Fred S. Price, 1934: Pris £20.
Cludiant yn ychwanegol. Cysyllter â J. Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6AL.
Ffôn: (01974) 831582.

---

Cardiau Post yr Eisteddfod Genedlaethol, Cyfres Gorsedd y Beirdd:
Agor yr Orsedd; Cyflwyno'r Corn Hirlas; Yr Araith; Cario'r Corn Hirlas; Tynghedu'r Arwyddfardd; Yr Orymdaith.
Pris i'w drafod. Cysyllter ag Eifion ar (01492) 584709.

---

*Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr Ynys Môn* rhwng 1932 a 1935 ac o 1959 i 2001 (43 rhifyn)
Cysyllter â (01766) 513620.

---

Glamorgan County History, Cyfrol 3 a Chyfrol 4. Cynigion os gwelwch yn dda.
Ffôn: (01678) 540652.

*Archaeologia Cambrensis*, 1909. 4 rhan.
*Diarhebion Cymru*, William Hay, 1955.
*The Story of Carmarthenshire*, D. Morgan, The Welsh County Series, 1909.
*Caneuon Roger Edwards*, Ail-argraffiad, rhwymiad arbennig, 1870.
Ffôn: (01970) 617171.

## YN EISIAU

Montgomeryshire Collections Cyfrol 39–51
Cysyllter ar (01656) 656033

---

Campbell, J. L. a Thomson, 1963, *Edward Lhuyd in the Scottish Highlands, 1699-1700*, Oxford, Clarnedon Press
Gunther R. T., *Life and Letters of Edward Lhuyd*, Oxford, Oxford University Press, 1945.
Williams, D. R., *Prying into every hole and corner – Edward Lhuyd in Cornwall.*
Roberts, B. F., *Edward Lhuyd, The Making of a Scientist*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru, 1980.
Emery, F. V., *Edward Lhuyd 1660-1709*, Caerdydd. Gwasg Prifysgol Cymru, 1971.
Cysyllter ar (01352) 780680.


**CORRIS**
**Trwy Lygad y Camera**
*Through the Eye of the Camera*

Llyfr dwyieithog am Gorris, pentrefi eraill Dyffryn Dulas a Thalyllyn. O faint A4, mae'r llyfr 56 tudalen yn cynnwys oddeutu 280 o luniau. Ar gael oddi wrth yr awdur a'r cyhoeddwr: David Jones 106 Rhodfa Carisbrooke, Cyncoed, Caerdydd CF23 9HK
ISBN 0 9543378 0 8
Pris £8.95

